

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)



Cwestiynau Cyffredin Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol

1. Beth yw cwmpas y Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol?

Cwmpas y cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol yw gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o dimau amenedigol ar draws sefydliadau GIG Cymru, sy'n darparu gwasanaethau a gofal i fenywod, newydd-anedig, a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod cynenedigol, yn ystod genedigaeth, ôl-enedigol, a newyddenedigol, hyd at 28 diwrnod, neu tra bod babi mewn uned newyddenedigol neu o dan ofal uned newyddenedigol.

2. Pa broffesiynau sydd mewn cwmpas?

Rydym yn gwybod bod llawer o weithwyr proffesiynol yn chwarae rhan bwysig wrth ofalu am fenywod, babanod, a'u teuluoedd trwy gydol y cyfnod amenedigol. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n benodol ar staff sy'n gweithio'n glinigol o fewn gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Er bod cydweithwyr mewn lleoliadau gofal sylfaenol a chymunedol, fel meddygon teulu, nyrsys practis ac ymwelwyr iechyd yn hanfodol i'r system gymorth ehangach, mae eu rolau yn mynd y tu hwnt i ofal amenedigol ac yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gweithlu strategol eraill. Mae'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol yn canolbwyntio yn broffesiynol ar:

- Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) - nyrsys newyddenedigol, bydwragedd a nyrsys amlawdriniaethol cofrestredig.
- Gweithlu nyrsio newyddenedigol a chymorth mamolaeth (Bandiau 2, 3 a 4)
- Gweithlu theatr mamolaeth
- Obstetryddion a Gynaecolegwyr; Ymgynghorwyr, meddygon gradd hyfforddi, graddau Staff ac Arbenigwr Cyswllt (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol.
- Anesthetyddion sy'n gweithio ym maes Obstetreg; Ymgynghorwyr, meddygon gradd hyfforddi, graddau Staff ac Arbenigwr Cyswllt (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol.
- Neonatologwyr: Ymgynghorwyr, meddygon gradd hyfforddi, graddau Staff ac Arbenigwr Cyswllt (SAS) a meddygon a gyflogir yn lleol.
- Meddygon Arbenigol sy'n gweithio mewn gwasanaethau mamolaeth
- Meddyg Cyswllt
- Gweithlu gyda chymwyseddau mewn sonograffeg a radioleg obstetreg
- Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, gan gynnwys seicolegwyr sy'n gweithio i gefnogi staff a chleifion
- Gwyddonwyr Gofal Iechyd
- Fferyllwyr

3. Beth yw'r heriau allweddol sy'n wynebu'r gweithlu amenedigol yng Nghymru?

Er bod y gyfradd geni wedi gostwng 15.4% dros y degawd diwethaf mae'r gweithlu amenedigol yng Nghymru yn wynebu sawl her allweddol, gan gynnwys cymhlethdod cynyddol, prinder gweithlu a heriau cadw, gweithlu sy'n heneiddio, cystadleuaeth am sgiliau, pwysau economaidd, disgwyliadau gweithlu sy'n newid, ac effaith polisïau byd-eang a chenedlaethol.

4. Beth yw prif nodau'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol?

Prif nodau'r Cynllun Gweithlu Amenedigol Strategol yw adeiladu'r gweithlu aml-broffesiynol, gwella addysg a hyfforddiant, hyrwyddo arweinyddiaeth, datblygiad gyrfa a diwylliant, a thrawsnewid y gweithlu i ddiwallu anghenion esblygol gofal amenedigol.

5. Sut mae'r cynllun yn mynd i'r afael â'r mater o gadw gweithlu?

Mae'r cynllun yn mynd i'r afael â chadw'r gweithlu trwy hyrwyddo opsiynau gweithio hyblyg, datblygu gyrfa strwythuredig, mynediad at gymorth lles, a gweithredu ymyriadau cadw wedi'u targedu. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd arweinyddiaeth tosturiol a chreu diwylliant gweithle cefnogol.

6. Beth yw'r camau gweithredu allweddol a amlinellir yn y cynllun i wella addysg a hyfforddiant ar gyfer y gweithlu amenedigol?

Mae camau allweddol i wella addysg a hyfforddiant yn cynnwys datblygu fframwaith cymhwysedd craidd amlbroffesiynol, safoni hyfforddiant ar gyfer nyrsio newyddenedigol, gwella hyfforddiant ar gyfer gofal trosiannol ac allgymorth newyddenedigol, a hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau gyrfa a darparu hyfforddiant mewn llythrennedd digidol a genomeg.

7. At beth mae'r term Amenedigol yn cyfeirio?

Mae'r term amenedigol wedi cael ei ddefnyddio yn hytrach na mamolaeth a newyddenedigol yn seiliedig ar adborth i bwysleisio pwysigrwydd dull amlddisgyblaethol o ofal a ddarperir yn ystod beichiogrwydd, genedigaeth, a'r cyfnod uniongyrchol ar ôl geni.

8. Sut byddwn ni'n gweithredu'r cynllun?

Rydym yn datblygu cynllun gweithredu manwl a chyfathrebu ac ymgysylltu. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd a chydweithwyr Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru i weithredu'r Cynllun yn effeithiol, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd drwy gylchlythyr a swyddi ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu cynnydd y gwaith.